Diwrnod Dim Smygu

Sut mae Diwrnod Dim Smygu yn helpu smygwyr i roi'r gorau i smygu?
Cyfnod Allweddol 4 (Ystod Oedran 14-16)

Amser Angenrheidiol: 1 wers 60 munud neu 2 wers 30 munud

Amcanion Dysgu: Bydd disgyblion yn gallu egluro sut mae'r elusen Diwrnod Dim Smygu yn helpu smygwyr i roi'r gorau i smygu.
Cwricwlwm Cenedlaethol, AIBCh, CA 4 adran 2d) Perygl i iechyd dan dybaco 2e) Ceisio cyngor proffesiynol

Canlyniadau Dysgu: Bydd disgyblion yn dangos eu bod wedi cwrdd â'r amcan dysgu drwy greu taflen ar gyfer clinig meddyg. Bydd y daflen hon yn hysbysebu amcanion a gwaith Diwrnod Dim Smygu. Mae'n rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol: pam fyddai rhywun eisiau rhoi'r gorau i smygu? Sut gall Diwrnod Dim Smygu fod o gymorth yn ymarferol? Beth yw pwrpas Diwrnod Dim Smygu?

Sgiliau:

- Sgiliau TGCh neu
- Sgiliau gwaith grŵp
- Llythrennedd

Adnoddau:

- Ar gyfer gwers TGCh, taflen waith A, mynediad i'r we
- Ar gyfer gwers ysgrifennu, taflen wybodaeth B, geiriaduron, papur A3
- Ar gyfer pob disgybl, papur i wneud y daflen.

Cynllun Gwers	
Gweithgaredd Cychwynnol	Disgyblion i ddychmygu eu bod yn sefydlu gwasanaeth gwybodaeth i helpu pobl i roi'r gorau i smygu. Gyda phartner, maent i drafod a rhestru pa wybodaeth fydd yn ddefnyddiol i bobl yn eu barn nhw.
Prif Weithgaredd	**Gwers TGCh** Disgyblion i ddefnyddio www.nosmokingday.org.uk Byddant yn pori drwy'r wefan ac yn gwneud nodiadau ar y daflen o dan y penawdau cywir. **Gwers Ysgrifennu** Disgyblion i weithio mewn grwpiau o 2 neu 3. Maent i ddarllen y daflen wybodaeth '*Beth yw Diwrnod Dim Smygu?'* a defnyddio'r geiriadur i chwilio am unrhyw eiriau nad ydynt yn eu deall. Ar y daflen A3, bydd y disgyblion yn creu map meddwl wrth feddwl am y cwestiynau isod: • Beth yw Diwrnod Dim Smygu? • Beth mae'r elusen yn ei wneud? • Pa gymorth ymarferol sydd ar gael? • Beth mae Diwrnod Dim Smygu yn ei gyflawni? **Pob disgybl** Mae meddyg yn y clinig lleol wedi gofyn i'r disgyblion gynhyrchu taflen yn hysbysebu amcanion a gwaith Diwrnod Dim Smygu. Arddangosir y daflen hon gydag ymgyrch Rhoi'r Gorau i Smygu'r GIG. Rhaid i ddisgyblion gynnwys gwybodaeth am 1) Pam fyddai rhywun eisiau rhoi'r gorau i smygu? 2) Sut gall Diwrnod Dim Smygu fod o gymorth yn ymarferol? 3) Beth yw pwrpas Diwrnod Dim Smygu?

Formatted Table

Deleted: ¶

Sesiwn grynhoi, gwaith cartref, gwaith ychwanegol	Disgyblion i feddwl am y cwestiynau hyn: A yw'r elusen a'r Diwrnod yn apelio i anghenion pobl ifanc? Beth allai'r elusen hon wneud i ganolbwyntio'n benodol ar helpu pobl ifanc? Disgyblion i ysgrifennu eu syniadau yn eu llyfrau dosbarth.